

SAMUELE TELARI acordion

“Artist y mae ei ddawn gerddorol ysgubol yn mynd y tu hwnt i’w offeryn” - Il Sole24Ore

Ac yntau’n “artist y mae ei ddawn gerddorol ysgubol yn mynd y tu hwnt i’w offeryn” (chwedl *Il Sole24Ore*), yn 2019 roedd Samuele yn fuddugol yng Nghlyweliadau Rhyngwladol YCAT yn Wigmore Hall.

Ymhlith ei wobrau cynt buasai’r Wobr Gyntaf yng Nghystadleuthau Arassate-Hiria 2018 (Sbaen) a Castelfidardo 2013 (yr Eidal).

Mae’r uchelfannau dros y flwyddyn aeth heibio’n cynnwys perfformiadau yn Snape Maltings Concert Hall yn Aldeburgh, recordiad i BBC Radio 3, a datganiadau ‘ar-lein byw’ a gomisiynwyd gan Wyl Celfyddydau a Cherddoriaeth Deal, Gŵyl Cerddoriaeth Gynnar Llundain a Banquo de la Republica yng Ngholombia. Yn 2020 recordiodd Samuele Amrywiadau Goldberg yn Queen’s Hall yng Nghaeredin i Delphian a ryddheir ym mis Gorffennaf.

Ymhlith ei alwadau yn ystod 2021/2022 mae datganiadau yn Wigmore Hall, Festspiele Mecklenburg-Vorpommern, Gŵyl Academi Verbier, cyfres Divertimento Ensemble Rondò yn Milano a Gŵyl Gerdd Schlern (Gogledd yr Eidal). Mae’n cydweithredu ag Ema Nikolovska (mezzo), y Castalian Quartet, Quatour Hermes a Tabea Debus (recorder). Yn 2022 mae’n gwneud ei début gyda l’Orchestra Haydn dan arweiniad Kent Nagano yn Bolzano a Trento, yr Eidal.

Mae Samuele wedi perfformio’n eang yn Ewrop, a’r uchelfannau’n cynnwys La Società dei Concerti (Milano), Amici della Musica di Firenze, Cité de la Danse et la Musique (Strasbourg) a Berlin Philharmonie. Yn unawdydd gyda cherddorfa rhoes ei première i Concerto Enrico Blatti gyda Cherddorfa Wladol y Feudwyfa yn St Petersburg a pherfformio *Opale* Galliano gydag I Virtuosi Italiani.

Yn Spoleto (yr Eidal) y ganed Samuele sy’n athro yn Conservatorio ‘Gesualdo da Venosa’ yn Potenza, ‘Bruno Maderna’ yn Cesena a ‘F.A.Bonporti’ yn Trento.

Cerddor llwyr ydi Samuele Telari, artist tawel, meddylgar a chain, yn aml wedi ymgolli mewn arferion gwranddo anghyffwrdd.

Sandro Cappelletto / Limes CD / 2017

‘Mae Telari yn perthyn i genhedlaeth o artistiaid y mae eu dawn gerddorol ysgubol yn mynd y tu hwnt i’w hofferyn: yma, mae Bach yn mynd yn organ, Gubaidulina yn weddi gyfriniol, Saint-Saëns yn Gerddorfa wenfflam.’

Il Sole24Ore / Carla Moreni / 2017

Dros y flwyddyn aeth heibio bu Samuele ar daith yn Sbaen a Serbia a rhoi datganiadau drwy hyd a lled yr Eidal gan gynnwys Amici della Musica di Firenze a Festival di Nuova Consonanza (Rhufain).